

Gair Duw ydi'r peth mwyaf drudfawr yn y byd. (ffyddlondeb / penderfyniad)

"Bydd llong yn hwylio ymhen dwy awr," gwaeddodd y capten. Pysurai'r marsiandïwyr i gario eu nwyddau ar y llong hwyliu oedd ar ei thaith i wledydd eraill. Ymhlith pethau eraill yn y cargo roedd dillad sidan, gemau o bob math, aur ac arian a gwin drudfawr.

Hwyliodd y llong o'r porthladd. Roedd y marsiandïwyr yn adnabod ei gilydd yn dda ond roedd un marsiandïwr dieithr ar fwrdd y llong. Eisteddai ar ei ben ei hun. Aeth un o'r marsiandïwyr ato i gael sgwrs. "A beth ydych chi'n mynd i werthu?" gofynnodd i'r gŵr dieithr.

"Rydw i'n mynd i werthu y peth drutaf yn y byd," meddai.

"O! a beth ydi hwnnw?" gofynnodd y lleill iddo. Ond ni ddywedodd y gŵr dieithr air o'i ben.

Felly dyma'r marsiandïwyr yn mynd i lawr i howld y llong i chwilio am drysorau'r gŵr dieithr. Buon nhw wrthi'n ddyfal yn chwilio ond doedd yna ddim ond eu trysorau nhw eu hunain yno. Yn wir doedd gan y gŵr dieithr ddim math o fag o gwbl. A dyma nhw'n dechrau chwerthin dros y lle, "Marsiandïwr yn wir, does ganddo ddim byd i'w werthu."

Ar ôl tridiau o hwylio cododd storm enbyd. Rhwygwyd yr hwyliu'n rhubanau a dechreuodd y llong ddrifftio tua'r creigiau. Daeth corwynt enbyd a tharodd y llong yn erbyn y creigiau. Crafangodd y marsiandïwyr a'r criw i fyny'r creigiau i ddiogelwch ond roedd y llong a'r cargo ar drugaredd y tonnau. Cyn pen dim roedd y llong hwyliu'n ddarnau a'r cargo'n cael ei olchi allan i'r môr. Roedd yr holl bethau gwerthfawr, y dillad sidan, y gemau drudfawr, yr aur a'r arian a'r gwinoedd wedi mynd am byth.

Ar ôl i'r storm ostegu cerddodd y marsiandïwyr oddi ar y creigiau tuag at ganolfan y ddinas. Hon oedd y ddinas roedden nhw wedi gobeithio gwerthu eu nwyddau ynddi. Ond yn hytrach na galw efo'i cynnyrch drudfawr doedd ganddyn nhw ddim. Dim byd!

Roedd yn rhaid iddyn nhw ddiybennu ar gardod gan bobl y ddinas. Bu'n rhaid begera am fwyd a lle i gysgu. Ond beth am y gŵr dieithr? Aeth ef i'r synagog leol a dechreuodd siarad â'r gynulleidfa. Aeth rhai o'r marsiandïwyr i wrando arno. Roedd yn

amlwg yn ddyn dysgedig iawn, ac roedd yn amlwg wedi treulio'i oes yn dysgu am lyfrau'r Beibl. Credai cynulleidfa'r synagog ei bod yn fraint fawr i gael y gŵr dysgedig hwn yn eu plith.

"Wnewch chi aros efo ni?" oedd cwestiwn pawb. "Buasem wrth ein bodd eich cael yn ein plith i egluro'r Beibl i ni."

Arhosodd yno am rai wythnosau. Yn ystod y dydd byddai'n dysgu myfyrwyr yn y coleg ac yna gyda'r nos byddai'n dysgu yn y synagogau. Daeth llawer o'r dinasyddion i wrando arno. Ond daeth yn amser iddo ymadael â nhw.

Roedd y marsiandïwyr yn dal yn y ddinas yn begera ar ochrau'r strydoedd. Roedden nhw'n clywed mwy o sôn am y gŵr dieithr yma o ddydd i ddydd. Aeth rhai ohonyn nhw i'r synagog un noson i wrando arno ac i ofyn am gymorth. "Fedri di'n helpu ni er mwyn i ni gael mynd adref yn ôl at ein teuluoedd?" Hwn oedd cwestiwn pob un ohonyn nhw.

Soniodd y gŵr dieithr am gwestiwn y marsiandïwyr wrth gynulleidfa'r synagog. "Pan fyddi di'n dychwelyd ddiwedd yr wythnos mi wnawn ni dalu i'r marsiandïwyr gael hwylio efo ti," oedd eu hateb.

Ar ôl iddyn nhw gyrraedd y llong meddai'r gŵr dieithr wrth y marsiandïwyr, "Roeddech chi'n meddwl nad oedd gen i ddim byd gwerth chweil efo mi. Ond mi roedd gen i. Roedd gen i wybodaeth am Air Duw. Mae hwnnw'n fwy drudfawr nag unrhyw aur ac arian."

"Rwyf ti'n iawn," meddai un o'r marsiandïwyr wrtho. "Gair Duw ydi'r peth mwyaf drudfawr yn y byd i gyd."



Adnod: "Dechreuodd bregethu Iesu yn y synagogau, a chyhoeddi mai Mab Duw oedd ef." Actau 9:20



Gweddi: "Diolch i Ti, O Dduw, am y Beibl yn ein hiaith ni." Amen.



Trafod:

- Pam mae'r Beibl yn cael ei alw'n 'Air Duw'?
- Fyddech chi'n dweud mai'r Beibl ydi'r 'trysor' mwyaf yn y byd?